**Lesley Griffiths AC / AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P-LG-1639-19

Arweinwyr Awdurdodau Lleol a Chyfarwyddwyr yr Amgylchedd Awdurdodau Lleol
Prif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac Eryri
Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru
Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
Prif Weithredwr Dŵr Cymru
Prif Swyddog Gweithredol Ystâd y Goron
Prif Weithredwr Gwasanaeth Goleudai Trinity House
Prif Weithredwr Network Rail
Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Prif Weithredwr Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
Rheolwr Gyfarwyddwr Port of Mostyn Ltd
Harbwrfeistr Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot
Harbwrfeistr Comisiynwyr Harbwr Casnewydd
Cadeirydd Gloucester Harbour Trustees
Prif Weithredwr Associated British Ports, De Cymru

1 Awst 2019

Annwyl Bawb

**Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru**

Yn rhinwedd eich rôl fel awdurdod rheoli Ardal Forol Warchodedig (AFW), fe fyddwch yn gwybod i'r Grŵp Llywio ar Reoli AFWau (y Grŵp Llywio) gyhoeddi Fframwaith Rheoli Rhwydwaith AFWau 2018-23 sy'n disgrifio'r weledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer rheoli'r rhwydwaith AFWau yng Nghymru. Cytunwyd hefyd ar Gynllun Gweithredu 2018-2019 ar Reoli'r Rhwydwaith AFWau. Daeth hwnnw, am y tro cyntaf, â 21 o gamau rheoli ynghyd ar lefel rhwydwaith, wedi'u blaenoriaethu, ar gyfer rheoli AFWau yn well ac ar gyfer gwella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith AFWau yng Nghymru.

Ers hynny, mae'r Grŵp Llywio wedi llunio Adroddiad Blynyddol ar reoli AFWau a Chynllun Gweithredu ar gyfer 2019-20. Amgaeaf gopïau o'r ddwy ddogfen er eich gwybodaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn disgrifio'n fanwl y gwaith sydd wedi'i wneud gyda'r 21 o gamau rheoli a restrwyd yng Nghynllun Gweithredu 2018-19 ar Reoli'r Rhwydwaith AFWau. Mae'n cynnwys gwybodaeth am fewnbynnau ac allbynnau'r gweithgareddau rheoli, ac yn ystyried sut mae'r camau a gymerir yn cyfrannu at reoli AFWau yn well, ac felly at wella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith AFWau.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ystyried natur ategol y gweithgareddau lleol sy'n cael eu cynnal ar ein Safleoedd Morol Ewropeaidd ac a ddisgrifiwyd yn fanwl mewn adroddiad ar y cyd gan Grwpiau Awdurdodau Perthnasol y Safleoedd Morol Ewropeaidd. Yn ogystal â chyhoeddi crynodeb ohono yn yr Adroddiad Blynyddol, caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'n glir bod yr Awdurdodau Rheoli rhyngddynt wedi gwneud llawer o waith i:

- gryfhau'r prosesau penderfynu, datblygu strategaethau a gweithredu;
- cryfhau'r dystiolaeth; a
- gwella'n dealltwriaeth o'r pwysau ar nodweddion AFW a'r amgylchedd morol ehangach.

Mae Cynllun Gweithredu 2019-2020 yn cynnwys 25 o gamau penodol ar gyfer rheoli AFWau, i'w cymryd gan Awdurdodau Rheoli fel eich un chi. Mae'r Grŵp Llywio, wrth flaenoriaethu'r camau rheoli hyn, yn ceisio sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn hoelio sylw'r holl Awdurdodau Rheoli ar y camau all arwain at reoli'r rhwydwaith AFWau yn well a thrwy hynny, at wella cyflwr y rhwydwaith cyfan. Eleni, mae Llywodraeth Cymru'n talu am bedwar o'r camau hyn, ar gost o £138,500, yn ogystal â'r arian y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei roi i awdurdodau lleol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal eu swyddogaethau craidd.

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Grŵp Llywio am eu cyfraniad a'u cefnogaeth wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cynllun Gweithredu. Mae rheoli'n rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn gyfrifoldeb rydym yn ei rannu rhyngom.

Mae arweiniad ar gael i'ch helpu chi a'ch awdurdod i ysgwyddo'ch cyfrifoldebau a chynnal eich gweithgareddau mewn cysylltiad ag AFWau, gan gynnwys cyngor ar ganiatáu, asesu a gwneud penderfyniadau sy'n galluogi gweithgareddau. Maent rhyngddynt yn cefnogi rheoli'r amgylchedd morol. Fe welwch restr hir o gyngor ac arweiniad yn Atodiad 2 Fframwaith Rheoli Rhwydwaith AFWau Cymru 2018-2023.

Os oes gennych gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn, yr Adroddiad Blynyddol neu Gynllun Gweithredu 2019-20 ar Reoli Rhwydwaith AFWau Cymru, ffoniwch fy swyddogion yng Nghangen Cadwraeth y Môr a Bioamrywiaeth ar 03000 258151.

Cofion,



**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs